

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cam-drin Domestig

Chwefror 2021

1. Cefndir

Bil Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU

1. Cafodd y **Bil Cam-drin Domestig**¹ (y Bil) ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 3 Mawrth 2020. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref.
2. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil yn nodi:

“Diben y Bil yw codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar ddioddefwyr, gwella effeithiolrwydd y system gyfiawnder ymhellach o ran diogelu dioddefwyr camdriniaeth ddomestig a dod â throsteddwyr gerbron y llysoedd, a chryfhau'r cymorth i ddioddefwyr camdriniaeth a'u plant a ddarperir gan asiantaethau statudol eraill.”²
3. Cwblhaodd y Bil ei gyfnodau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Gorffennaf 2020. Fe'i cyflwynwyd³ yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 7 Gorffennaf 2020. Gwnaeth Llywodraeth y DU lawer o welliannau i'r Bil, gan gynnwys ychwanegu un cymal newydd yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, a phum cymal newydd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin.

¹ Y Bil Cam-drin Domestig (Bil 96), Mawrth 2020

² Y Bil Cam-drin Domestig (Bil 96), **Nodiadau Esboniadol**, Mawrth 2020

³ Y Bil Cam-drin Domestig (Bil HL 124), Gorffennaf 2020



4. Mae'r cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi wedi'i drefnu ar gyfer 8 Mawrth 2021.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

5. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol oherwydd bod darpariaethau yn y Bil yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n dod o fewn ei chymhwysedd.

6. Ar 3 Awst 2020, gosododd Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd⁴ mewn perthynas â'r Bil.

7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes⁵ y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (y Pwyllgor) a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn 5 Tachwedd 2020. Yn dilyn hynny, estynnwyd y dyddiad i 25 Chwefror 2021.⁶

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

8. Mae'r dull o rifo'r cymalau yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn adlewyrchu'r fersiwn o'r Bil a gyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi.

9. Mae paragraffau 6 a 7 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi asesiad gwreiddiol Llywodraeth Cymru lle mae darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae angen ei chydsyniad, fel a ganlyn:

- cymal 3 (plant yn ddiodefwyr camdriniaeth ddomestig);
- cymal 65 (nid yw cydsyniad i niwed difrifol er boddhad rhywiol yn amddiffyniad);
- cymal 66 (troseddau yn erbyn y person a gyflawnir y tu allan i'r DU: Cymru a Lloegr);
- cymal 68 (diwygiadau sy'n ymwneud â throseddau a gyflawnir y tu allan i'r DU);

⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Cam-drin Domestig, Awst 2020

⁵ Y Pwyllgor Busnes, yr amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cam-drin Domestig, Medi 2020

⁶ Gweler paragraff 29 a throednodyn 19

- cymal 73 (pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddyroddi Canllawiau ynglŷn â cham-drin domestig etc).

10. Er bod mwyafrif darpariaethau'r Bil yn ymestyn i Gymru, mae paragraff 73 ac Atodiad B i nodiadau esboniadol y Bil yn cadarnhau nad yw Llywodraeth y DU o'r farn bod unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

11. Mae paragraffau 8 i 12 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn asesu'r darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer.

12. Mae paragraff 8 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

“Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y mesurau mewn perthynas ag awdurdodau a gadwyd yn ôl yn ategu'r gwaith sydd eisoes yn digwydd yng Nghymru drwy *Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015*.”

13. Mae paragraff 9 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

“Mae cymal 65 yn cyflwyno newidiadau sylweddol a phwysig gan ei fod yn deddfu ar gyfer yr egwyddor na fyddai cydsynio i niwed difrifol er boddhad rhywiol yn amddiffyniad; mae'n hanfodol ei fod yn cael ei weithredu ar draws awdurdodaeth Cymru a Lloegr ar yr un pryd.”

14. O ran cymalau 66 a 68, mae paragraff 10 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

“Mae cymalau 66 a 68 o'r Bil wedi'u cynnwys er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r DU o dan erthygl 44 o Gonfensiwn Istanbul. Er y gallai'r Senedd basio deddfwriaeth i weithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu cadarnhau Confensiwn Istanbul ar ei phen ei hun gan nad yw'n Genedl-wladwriaeth a rhaid iddi ddibynnu ar Lywodraeth y DU at y diben hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r camau sy'n cael eu cymryd mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU a fydd yn caniatáu cadarnhau'r Confensiwn.”

15. Fodd bynnag, o ran cymal 73, mae paragraff 11 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

“Ym marn Llywodraeth Cymru, mae cymal 73, (fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd), yn tresmasu'n sylweddol ar swyddogaethau gweithredol Gweinidog Cymru a chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Bydd

swyddogion yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU i geisio cael gwelliant i'r cymal er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r setliad datganoli yn gywir ac yn ei barchu.”

16. O ran goblygiadau ariannol y Bil, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

“Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na Senedd Cymru yn deillio o'r pwerau o dan y Bil, efallai y bydd goblygiadau ariannol i Gymru yn y dyfodol o ran yr effaith gyffredinol pe bai dull gwahanol yn cael ei fabwysiadu.”⁷

17. Daw'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r casgliad a ganlyn:

“Nid oes lle yn rhaglen ddeddfwriaethol bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru ar y materion hyn, ac nid oes unrhyw Fil yn y rhaglen y gellid ychwanegu darpariaethau o'r fath ato.

Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod y Bil yn ymdrin â materion datganoledig a rhai nad ydynt wedi eu datganoli. O ran cydlyniad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai deddfu drwy Fil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur o godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â cham-drin domestig.”⁸

Trafodaeth y Pwyllgor

18. Trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ein cyfarfodydd ar 28 Medi⁹ a 12 Hydref¹⁰ 2020.

19. Mae Rheol Sefydlog 29.3(ii) yn ei gwneud yn ofynnol bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn pennu i ba raddau y mae (neu y byddai) y Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol. 'Darpariaeth berthnasol' yw un sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Er bod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn amlinellu pa ddarpariaethau y credir bod angen cydsyniad ar eu cyfer, nid yw'n

⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Cam-drin Domestig, paragraff 13

⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Cam-drin Domestig, paragraffau 12 a 14

⁹ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 28 Medi 2020](#)

¹⁰ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Hydref 2020](#)

darparu unrhyw ddadansoddiad o sut mae'r cymalau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

20. Yn dilyn ein cyfarfod ar 28 Medi 2020, ysgrifennwyd at y Dirprwy Weinidog, ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.¹¹

21. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog ddarparu'r dadansoddiad a wnaeth er mwyn penderfynu bod y pum cymal a nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - cymalau 3, 65, 66, 68 a 73 - yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd. At hynny, mae cymal 3 o'r Bil yn gysylltiedig â chymal 1, gan ei fod yn diffinio camdriniaeth ddomestig. Trwy estyniad, mae cymal 3 hefyd yn gysylltiedig â chymal 2 o'r Bil, sy'n diffinio sut mae pobl wedi'u "cysylltu'n bersonol" at ddibenion y diffiniad yng nghymal 1. O'r herwydd, gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog roi esboniad pam ei bod o'r farn nad oes angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 a 2 chwaith.

22. Ymatebodd y Gweinidog i'n llythyr ar 6 Hydref 2020¹² a dywedodd:

"Rydych ... wedi gofyn am fanylion y dadansoddiad a wnaed er mwyn penderfynu bod cymalau 3, 65, 66, 68 a 73 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a pham nad yw cymalau 1 a 2 wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Rydych yn nodi bod Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r Bil yn datgan nad yw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac felly nad oes angen cydsyniad. "Rwy'n parhau i gredu bod achos cryf dros ddadlau bod y darpariaethau a nodwyd yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Diben cyffredinol y Bil yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar ddioddefwyr, atal cam-drin domestig, gan gynnwys cryfhau'r cymorth i ddioddefwyr camdriniaeth a'u teuluoedd; ac mae hyn yn cael effaith glir ar faterion datganoledig.

Rhaid ystyried proses y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yng nghydestun confensiwn Sewell fel y nodir yn adran 107(6) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* a'r Canllawiau ar Ddatganoli, sef, 'Parliamentary and Assembly Primary Legislation Affecting Wales'. Mae'r canllawiau hynny'n darparu na fydd Senedd y Deyrnas Unedig yn deddfu "mewn perthynas â materion datganoledig" heb gydsyniad Senedd Cymru. Mae cam-drin domestig yn gyffredinol yn faes

¹¹ [Llythyr at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip](#), 30 Medi 2020

¹² [Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip](#), 6 Hydref 2020

datganoledig, ac mae *Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015* yn brawf o hynny.”¹³

23. O ran amseriad y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Mawrth 2020, ond ni chafodd y Memorandwm ei osod gerbron y Senedd tan 3 Awst 2020. Mae Rheol Sefydlog 29.2(i) yn dweud y dylid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol “dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl ei gyflwyno”. Er bod cymalau 3 a 65 wedi'u cynnwys yn y Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin, nid yw'n eglur pam y bu oedi o ran gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 66, 68 a 73. Felly gofynnwyd i'r Gweinidog egluro pam y bu oedi o ran gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymalau hyn.

24. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

“Cyflwynwyd y Bil am ei ddarlleniad cyntaf yn Senedd y Deyrnas Unedig ar 3 Mawrth, ac roedd fy swyddogion mewn trafodaethau parhaus â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig; yn benodol am bwerau'r Comisiynydd Cam-drin Domestig arfaethedig a gallu'r Senedd i graffu ar ei waith. Yna bu'n rhaid i unrhyw waith pellach o edrych ar y Bil yn ei gyfanrwydd ddod i ben wrth i swyddogion yn y Gwasanaethau Cyfreithiol a swyddogion polisi ymateb i'r sefyllfa unigryw yn sgil COVID-19, a gwaith cysylltiedig. Dim ond yn ddiweddar y mae'r gwaith o graffu ar y Bil wedi ailddechrau, ac mae fy swyddogion wedi ailddechrau trafod â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac maent yn ystyried y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'n anffodus na osodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y cychwyn cyntaf oherwydd y gwaith enfawr a grëwyd gan COVID -19, fodd bynnag, rwy'n credu bellach bod hwn yn amser da i graffu ar y Bil, o gofio bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'n hysbysu yn ddiweddar am eu gwelliannau, a bod y Bil yn symud ymlaen gerbron Tŷ'r Arglwyddi erbyn hyn.”¹⁴

25. Trafodwyd llythyr 6 Hydref 2020 yn ein cyfarfod ar 12 Hydref ac ysgrifennwyd at y Dirprwy Weinidog eto gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i wneud cais pellach am y dadansoddiad y gofynnwyd amdano yn ein llythyr cyntaf.¹⁵ Ymatebodd y Dirprwy Weinidog i'n llythyr ar 15 Hydref 2020¹⁶

¹³ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 6 Hydref 2020

¹⁴ Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 6 Hydref 2020

¹⁵ [Llythyr at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip](#) 13 Hydref 2020

¹⁶ [Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip](#) 15 Hydref 2020

gan ein hysbysu bod oedi o ran taith y Bil ac, o ganlyniad, bod y ddadl a oedd i fod i ddigwydd yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Tachwedd 2020 wedi'i gohirio.

26. Ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog atom eto ar 16 Rhagfyr 2020.¹⁷ Dywedodd:

“Mae'n bleser gennyf gadarnhau y daethpwyd i gydgytundeb gan Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau i [cymal] 73 o'r Bil er mwyn sicrhau bod pŵer yr [Ysgrifennydd Gwladol] i gyhoeddi canllawiau wedi'i gyfyngu i faterion sydd wedi'u cadw'n ôl ac nad ydynt yn tresmasu ar faterion datganoledig Cymru. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU drwy weithredu c73(6) (*'Duty on the SoS to consult with the Welsh Ministers'*), er mwyn sicrhau bod y canllawiau a gyhoeddir yn rhoi ystyriaeth lawn i'r sefyllfa ddatganoledig.”

27. Ychwanegodd y Gweinidog:

“Fy safbwynt i o hyd yw bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 65, 66 a 68 a Rhan 1 o Atodlen 2 am eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Maent yn cynnwys addasiadau i droseddau y gallai'r Senedd eu gwneud yn rhannol. Mae deddfwriaeth i roi sylw i rwymedigaethau rhyngwladol a'u gweithredu, fel rhwymedigaethau confensiwn Istanbul, hefyd yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd lle mae deddfwriaeth angenrheidiol yn perthyn i gylich gwaith meysydd datganoledig.”¹⁸

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

28. Ar 20 Ionawr 2021 gosododd y Dirprwy Weinidog Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.¹⁹

29. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Atodol erbyn 25 Chwefror 2021.²⁰

¹⁷ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 16 Rhagfyr 2020

¹⁸ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 16 Rhagfyr 2020

¹⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cam-drin Domestig, Ionawr 2021

²⁰ Y Pwyllgor Busnes, yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cam-drin Domestig, Ionawr 2021 Disodlodd y dyddiad cau newydd hwn ar

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

30. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â pha ddarpariaethau yn y Bil sydd angen cydsyniad y Senedd, ym marn Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi'r canlynol:

"Nodwyd yn y Memorandwm blaenorol ein bod yn credu bod cymal 73, (fel y'i drafftwyd), yn tresmasu'n sylweddol ar swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru a chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Dywedom y byddai swyddogion yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i geisio cael gwelliant i'r cymal er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r setilad datganoli yn gywir ac yn ei barchu.

Rydym yn croesawu'r gwelliant a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 7 Ionawr 2021 a fydd yn sicrhau bod pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau wedi'i gyfyngu'n barchus i faterion a gedwir yn ôl. Bydd y diwygiad i gymal 73 yn atal yr Ysgrifennydd Gwladol rhag cyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â 'materion wedi'u datganoli i Gymru!'"²¹

31. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn mynd ymlaen i ddweud:

"Rydym wedi dod i gytundeb â Llywodraeth y DU ynglŷn â chymal 73 fel y nodwyd uchod. O ganlyniad, nid ydym yn credu bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn.

Nid oes angen cymal 3, fel y cyfeirir ato yn y Memorandwm gwreiddiol, gan ei fod yn gysylltiedig â chymal 73."²²

32. Mae paragraff 14 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn dweud:

"Mae'r rhesymeg dros gynnwys cymalau 65, 66 a 68 o fewn y Memorandwm gwreiddiol yn aros yr un fath ag a nodwyd yn flaenorol. Ers hynny, rydym wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Deddfwriaeth,

gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y dyddiad cau a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes ym mis Medi 2020.

²¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, y Bil Cam-drin Domestig, paragraffau 8 a 9

²² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, y Bil Cam-drin Domestig, paragraffau 10 ac 11

Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ar 16 Rhagfyr 2020, i egluro ymhellach ein safbwynt o ran y cymalau hyn. Dywedom eu bod yn cynnwys addasiadau i droseddau y gellid eu gwneud, yn rhannol, gan Senedd Cymru. Mae deddfwriaeth i weithredu a chadw at rwymedigaethau rhyngwladol, fel y rhai sy'n ofynnol ar gyfer Confensiwn Istanbul, hefyd yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd lle bo deddfwriaeth angenrheidiol yn dod o fewn meysydd datganoledig.”²³

33. Mae paragraff terfynol y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ailadrodd paragraff 14 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gan ddweud “Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod y Bil yn ymdrin â materion datganoledig a rhai nad ydynt wedi eu datganoli”.²⁴

Trafodaeth y Pwyllgor

34. Trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ein cyfarfod ar 8 Chwefror 2021.²⁵

Ein barn ni

35. Nodwn asesiad y Dirprwy Weinidog o'r darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, fel y nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Rydym hefyd yn nodi rhesymau'r Dirprwy Weinidog ynghylch pam, yn ei barn hi, bod y Bil sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn briodol, a'i hesboniad am yr oedi o ran gosod y Memorandwm gerbron y Senedd.

36. O ystyried bod Llywodraeth y DU o'r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil, credwn y dylai'r Dirprwy Weinidog fod wedi cynnwys, yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gwreiddiol, ddadansoddiad ac esboniad mwy trylwyr o pam yr oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad. ar gyfer cymalau 3, 65, 66, 68 a 73 o'r Bil.

37. Rydym yn siomedig na wnaeth llythyr y Dirprwy Weinidog, dyddiedig 6 Hydref 2020, ddarparu'r eglurhad y gofynnwyd amdano na mynd i'r afael â pham

²³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, y Bil Cam-drin Domestig, paragraff 14

²⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, y Bil Cam-drin Domestig, paragraff 16

²⁵ [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Chwefror 2021](#)

nad oedd cymalau 1 a 2 o'r Bil yn cael eu hystyried yn wreiddiol fel rhai a oedd angen cydsyniad.

38. Mae llythyr y Dirprwy Weinidog, dyddiedig 6 Hydref yn dweud mai 'Diben cyffredinol y Bil yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar ddiodefwr, atal cam-drin domestig, gan gynnwys cryfhau'r cymorth i ddiodefwr camdriniaeth a'u teuluoedd; ac mae hyn yn cael effaith glir ar faterion datganoledig.'

39. Nodwn fod cydsyniad yn cael ei geisio o ganlyniad i ddiben cyffredinol y Bil. Mae Rheol Sefydlog 29 yn dweud bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fydd Bil yn gwneud darpariaeth "at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."

40. Yn ein barn ni, nid ydym o'r farn y gallai'r Senedd wneud cymalau 65, 66 a 68 (fel y'u drafftwyd ar hyn o bryd). Mae'n amlwg o'r ohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog, ac o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol, bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried diben ehangach y Bil, sydd mewn maes datganoledig, sef cam-drin domestig. Gan gymryd y safbwynt ehangach hwn, rydym yn cytuno bod y darpariaethau hyn yn ymwneud â diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

41. Nodwn ymhellach, yn dilyn gwelliant i gymal 73 sy'n atal yr Ysgrifennydd Gwladol rhag cyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â materion datganoledig Cymru, nad yw Llywodraeth Cymru bellach o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gymalau 3 a 73.